# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Cynlluniau a Ffioedd Parcio** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Gerwyn Jones, Pennaeth Adran Cynorthwyol Adran Amgylchedd** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **15fed Hydref 2024** |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

1.1 I gymeradwyo a galluogi'r Gwasanaeth Parcio fwrw ymlaen i wireddu dau gynllun arbedion sydd wedi eu cymeradwyo gan Gabinet y Cyngor yn 2023/24, sef:

1.1.1 Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd o £2.00 am hanner diwrnod a £4.00 am ddiwrnod llawn i £4.00 am 6 awr a £8.00 am 12 awr.

1.1.2 Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol o £140 i £145 y flwyddyn a phris Tocyn Parcio Lleol o £70 i £75 y flwyddyn.

1.2 I gymeradwyo a galluogi'r Gwasanaeth Parcio fwrw mlaen i wireddu dau gynllun arbedion sydd angen ystyriaeth bellach cyn dod i benderfyniad terfynol yn 2024/25, sef:

1.2.1 Ymestyn oriau gorfodaeth meysydd parcio arhosiad byr o 10:00 hyd at 16:30 i 9:00 hyd at 17:00.

1.2.2 Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2 yn unol a'r hyn a welwch yn Atodiad A.

1.3 I gytuno cynyddu holl ffioedd parcio 40% i alluogi'r Gwasanaeth Parcio gyfarch targed incwm sydd yn creu diffyg sylweddol yn y cyllidebau.

1.4 Petai Aelodau'r Cabinet yn penderfynu cymeradwyo'r cynlluniau arbed a nodir oddi fewn i 1.1.1, 1.2.1, 1.2.2 a'r cynnydd arfaethedig i'r strwythur ffioedd parcio ym mhwynt 1.3, bydd 10 diwrnod o gyfnod segur cyn medru trosglwyddo'r mater i Adran Gyfreithiol y Cyngor er mwyn cyflawni cyfnod ymgynghori statudol yn unol a Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol – Rheoliad 25 (Cymru a Lloegr).

1.5 Fel rhan o'r cyfnod ymgynghori, bydd gofyn hanfodol i'r Cyngor hysbysebu'r newidiadau arfaethedig yn y papurau newydd lleol yn ogystal ag arddangos y wybodaeth (cynnwys y ffioedd newydd) mewn safle amlwg yn y meysydd parcio a cheir eu heffeithio.

1.6 Nodaf nad yw'n statudol ofynnol cynnal proses ymgynghori ar gyfer cynllun 1.1.2.

1.7 Ein bwriad byddai bwrw mlaen gyda'r paratoadau er mwyn gweithredu'r holl newidiadau o 1af Ebrill 2025.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 I ddiweddaru'r strategaeth barcio a chynnig datrysiadau priodol er mwyn cyfarch lefel incwm digonol sydd yn ddisgwyliedig o'r Adran.

2.3 Rhaid cydnabod bod parcio yn medru bod yn fater cynhennus a bod cynigion ar gyfer rheoli parcio yn medru ysgogi teimladau cryf o bersbectif personol a lleol. Fodd bynnag, rhaid edrych ar y darlun sirol ac mae adolygu'r trefniadau yn anorfod o ran cynaliadwyedd ariannol yn y cyfnod heriol hwn o ran cyllidebau'r awdurdod.

## 3. Cyflwyniad

3.1 Mae'n anorfod i'r Cyngor wireddu arbedion a thoriadau sylweddol ynghyd a chynyddu lefel treth Cyngor er mwyn cyfarch bwlch ariannol dwys sydd yn y cyllidebau.

3.2 Bu i wasanaethau ar draws y Cyngor gyflwyno cynlluniau arbedion oedd gyfwerth a 20% o'u cyllidebau mewn ymgais i leddfu'r sefyllfa gyllidol hynod heriol sydd yn ein hwynebu.

3.3 Cafodd rhai o'r cynlluniau yma eu derbyn y llynedd, ac ers hynny, mae'r holl gynlluniau oedd yn weddill wedi bod yn sail trafodaethau a gweithdai mewnol.

**Cynlluniau Arbedion 2023/24**

3.4 Gweler isod ddau o'r cynlluniau a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Parcio sydd wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gabinet y Cyngor yn 2023/24 ynghyd a gwedd cyntaf cynigion arbedion a thoriadau'r Cyngor. Er hyn, a gan ystyried bod y pwnc yn hynod gynhennus, bu i Dim Arweinyddiaeth y Cyngor argymell ein bod yn cyflwyno'r cynlluniau i'r Pwyllgor Craffu ac yna ger bron Aelodau Cabinet y Cyngor am sêl bendith.

| Teitl y Cynllun | Amcan Cyfanswm Incwm ychwanegol |
|---|---|
| Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd | £40,000 |
| Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol a Lleol meysydd parcio o £5 y flwyddyn | £17,000 |
| **Cyfanswm:** | **£57,000** |

**Cynlluniau Arbedion 2024/25**

3.5 Gweler isod ddau o'r cynlluniau a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Parcio sydd angen ystyriaeth bellach a chymeradwyaeth gan Aelodau Cabinet y Cyngor er mwyn galluogi'r gwasanaeth i fwrw mlaen gyda'r trefniadau a chychwyn gwireddu'r cynnydd mewn incwm posibl:

| Teitl y Cynllun | Amcan Cyfanswm Incwm ychwanegol |
|---|---|
| Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2 | £160,000 |
| Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor | £78,000 |
| **Cyfanswm:** | **£238,000** |

**Diffyg yn y Gyllideb**

3.6 Caiff chwyddiant cyfansawdd ei ychwanegu ar darged incwm ffioedd parcio ar gychwyn pob blwyddyn ariannol. Mae cynnydd sylweddol yn y targed yn golygu nad ydi'r incwm a gynhyrchwyd bellach yn cyrraedd y targed a osodir. O ganlyniad, mae'n creu'r argraff bod gorwariant sylweddol yng nghyllidebau'r gwasanaeth.

3.7 Rhagwelir byddai cynyddu ffioedd parcio 40% yn ddigonol ar gyfer cyfarch y cynnydd chwyddiant disgwyliedig hyd at flwyddyn ariannol 2028-2029.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Sefydlwyd Grŵp Tasg Parcio ym mis Gorffennaf 2019 i ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth parcio weithredol ac ystyried ei addasrwydd a pherthnasedd i anghenion y Cyngor ac anghenion ein cymunedau erbyn heddiw.

4.2 Roedd y Grŵp Tasg yn cynnwys pedwar aelod lleol ar y pryd, Cynghorydd Angela Russell; Cynghorydd Annwen Hughes; Cynghorydd Kevin Morris Jones a Chynghorydd Gethin Glyn Williams a fu gydweithio'n adeiladol gyda Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd a swyddogion eraill o'r Adran.

4.3 Roedd polisïau a gweithdrefnau parcio'r Cyngor wedi aros yr un fath fwy neu lai ers 2015 felly manteisiwyd ar y cyfle i argymell gwelliannau oedd yn cydweddu gyda'r sefyllfa economi leol ac uchafu'r defnydd o feddalwedd sydd bellach ar gael. Roedd adolygu'r trefniadau hefyd yn anorfod yn nhermau cynaliadwyedd ariannol o ran cyllidebau'r awdurdod er sicrhau bod ein trefniadau rheoli ymarferol yn effeithiol ac yn effeithlon.

4.4 Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Rhagfyr 2020 yn cynnig argymhellion priodol ar gyfer datrys mwyafrif o'r materion. Yn ddilynol i hwn, aeth adroddiad terfynol ger bron Aelodau'r Cabinet ym mis Chwefror 2021 gyda'r argymhellion isod yn cael ei cymeradwyo:

1. Mabwysiadu Strwythur Ffioedd Parcio Newydd yn seiliedig ar y bandiau isod:

| Band | Meini Prawf |
|---|---|
| Band 1 | Canolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Manwerthu Trefol (Darparu'r ystod orau o wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus) |
| Band 2 | Canolfannau Manwerthu a Gwasanaethu Lleol (darparu ar gyfer anghenion gwasanaeth hanfodol eu poblogaeth eu hunain a'r dalgylchoedd gwledig cyfagos, ynghyd â rhywfaint o gyfleoedd cyflogaeth a manwerthu. Mae ganddynt raddfa dda o hygyrchedd trwy gludiant cyhoeddus i'r Canolfannau rheng uwch) |
| Band 3 | Meysydd Parcio Tymhorol |

2. Adolygu cynnig parcio yn ystod cyfnod y Nadolig
3. Dim newidiadau i'r Cynllun Bathodyn Glas
4. Dim newidiadau i'r Cynllun Parcio i Breswylwyr
5. Cryfhau'r Tîm Gorfodaeth Parcio

4.5 Mae'r argymhellion a restrwyd uchod wedi'u gweithredu.

## 5. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

**Cynlluniau Arbedion**

5.1 Fel y soniwyd uchod, ar dro'r flwyddyn 2023 bu i wasanaethau ar draws y Cyngor gyflwyno cynlluniau arbedion oedd gyfwerth a 20% o'u cyllidebau mewn ymgais i leddfu'r sefyllfa gyllidol hynod heriol sydd yn ein hwynebu.

5.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y pedwar cynllun isod:

- Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd
- Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol a Lleol meysydd parcio o £5 y flwyddyn
- Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2
- Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor

**Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd**

5.3 Mae gan y Cyngor ddarpariaeth parcio talu ac arddangos yn ardal Pen y Gwryd. Yn wahanol i feysydd parcio'r Cyngor, mae'r ddarpariaeth parcio hwn gyfochrog â'r briffordd ac felly wedi'i lywodraethu gan orchymyn parcio ar y ffordd.

5.4 Mae'r un ffioedd wedi bodoli yn y lleoliad ers blynyddoedd, sef £2.00 am hanner diwrnod a £4.00 am ddiwrnod llawn. Wrth edrych ar weddill ffioedd ledled y Sir, teimlwn ei bod yn rhesymol ac amserol cynyddu'r ffioedd presennol i £4.00 am 6 awr a £8.00 am 12 awr.

5.5 Rydym yn rhagweld gall y newid hwn gynhyrchu **£40,000** yn ychwanegol (Gros).

5.6 Byddwn wrth gwrs yn edrych ar yr ochr ymarferol ar gyfer rhoi'r newidiadau ar waith, gan gynnwys cyflwyno opsiynau talu amgen sydd yn ychwanegol i'r dull talu traddodiadol gydag arian parod.

**Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol a Lleol meysydd parcio o £5 y flwyddyn**

5.7 Mae'r Cyngor yn cynnig tocyn parcio blynyddol sydd yn galluogi deiliaid i barcio mewn unrhyw faes parcio arhosiad hir ledled y Sir heb gyfyngiad amser.

5.8 Bu i gost y tocyn parcio blynyddol gynyddu o £125 i £140 y flwyddyn yn 2021 yn unol ag argymhelliad o'r adolygiad strategaeth parcio. Yn flaenorol, doedd y prisiau heb gynyddu ers 2015.

5.9 Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig tocyn parcio lleol i drigolion sydd heb lecyn parcio dynodedig i ddefnyddio maes parcio arhosiad hir sydd agosaf i'w cartrefi. Bu i gost y tocyn parcio lleol gynyddu o £60 i £70 y flwyddyn yn 2021 yn unol ag argymhelliad yr adolygiad strategaeth parcio. Yn flaenorol, doedd y prisiau heb gynyddu ers 2015.

5.10 Byddai gweithredu'r cynnydd pris fel sydd wedi ei gynnwys yng nghynlluniau arbedion corfforaethol yn golygu y byddai pris Tocyn Parcio Blynyddol yn cynyddu o **£140 i £145** y flwyddyn a phris Tocyn Parcio Lleol o **£70 i £75** y flwyddyn.

5.11 Teimlwn y byddai'r tocynnau hyn yn parhau i gynnig gwerth am arian ar ôl cynnydd i'r ffioedd – gweler isod ddadansoddiad yn seiliedig ar y ffioedd newydd arfaethedig:

| | Cost Misol | Cost Dyddiol |
|---|---|---|
| Tocyn Parcio Blynyddol | £12.08 | £0.40 |
| Tocyn Parcio Lleol | £6.25 | £0.21 |

**5.12** Rydym yn argymell bod Aelodau Cabinet y Cyngor yn galluogi'r Gwasanaeth Parcio fwrw ymlaen i wireddu dau gynllun arbedion, sef **Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd** a **Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol a Lleol meysydd parcio o £5 y flwyddyn** sydd wedi eu cymeradwyo'n flaenorol.

**Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor**

5.13 Bu i Aelodau Cabinet y Cyngor gymeradwyo strwythur ffioedd parcio newydd yn 2021 a chyflwyno gwelliant i'r argymhelliad drwy ymofyn i'r Cyngor leihau amser gorfodi meysydd parcio arhosiad byr. Newidiwyd o 9:00 - 17:00 i 10:00 - 16:30.

5.14 Roedd yr argymhelliad gwreiddiol i gyflwyno oriau gorfodi o 9:00 - 17:00 wedi ei gwtogi'n barod o 8:00 – 18:00.

5.15 Y penderfyniad terfynol gan Aelodau'r Cabinet oedd cwtogi'r oriau ymhellach i 10:00 - 16:30. Daeth y newidiadau i rym ym mis Mai 2021 gyda'r ddealltwriaeth bod yr Adran Amgylchedd yn monitro'r lefelau incwm yn agos iawn.

5.16 Er yn anodd iawn amcanu gwir ardrawiad ariannol y trefniadau, mae'r tueddiadau parcio cyn 10:00 ac ar ôl 16:30 yn argymell ein bod yn pwyso tuag at yr achos gwaethaf yn nhermau colled incwm a amcanir, sef **£78,000**.

5.17 Teimlwn ein bod bellach mewn sefyllfa ble mae'n anorfod cynnig ymestyn yr oriau gorfodaeth ym meysydd parcio arhosiad byr band 1 a 2 i 9:00 – 17:00.

**Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2**

5.18 Er gwaethaf y gwaith o dderbyn cymeradwyaeth ac ymgynghori'n unol â'r drefn, derbyniwyd nifer o gwynion ynghylch y ffioedd newydd. Roedd rhan helaeth o'r cwynion yn cyfeirio tuag at y gost i barcio ym meysydd parcio arhosiad hir o fewn band 2 ble roedd penderfyniad wedi ei wneud i leihau'r nifer o opsiynau i ddau ffi yn unig – sef £5 am 12 awr a £10 am 24 awr.

5.19 Mynegwyd pryderon na fyddai'r ffioedd newydd yn fforddiadwy i bobl leol nac ychwaith yn cyfarch anghenion y bobl fyddai'n awyddus defnyddio'r meysydd parcio am gyfnod o lai na 12 awr.

5.20 Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r adborth a dderbyniwyd ar ôl i'r ffioedd newydd ddod i rym. O ganlyniad, penderfynwyd cyflwyno dau ffi newydd yn ychwanegol i'r ddau ffi presennol, sef £1 am 2 awr a £2 am 4 awr.

5.21 Roedd disgwyliad i'r strwythur ffioedd newydd yn ei ffurf wreiddiol gyfarch cyllideb y Cyngor. Wrth gwrs, cyfrifwyd y ffigyrau yn seiliedig ar yr oriau gorfodaeth a ffioedd gwreiddiol heb roddi ystyriaeth i'r newidiadau a gyflwynwyd wedi hynny.

5.22 Drwy gofio mai meysydd parcio arhosiad hir sydd dan sylw yma, rydym bellach yn argymell gwaredu y ffi £1.00 am 2 awr yn gyfan gwbl a chynyddu'r ffi 4 awr o £2.00 i £2.50.

5.23 Drwy ddefnyddio'r un model a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer amcanu incwm a drwy gyflwyno ffi sydd yn leiafswm o £2.50, rydym yn rhagweld gall y newid hwn gynhyrchu **£160,000** yn ychwanegol (Gros).

5.24 Mae copi o'r strwythur ffioedd arfaethedig i'w weld yn **Atodiad A**.

**5.25** Rydym yn argymell bod Aelodau Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo a galluogi'r Gwasanaeth Parcio fwrw ymlaen i wireddu dau gynllun arbedion sef **Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor** ag **Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2**.

**Gorwariant yn y Gyllideb**

5.26 Mae strategaeth parcio'r Cyngor, sydd yn cynnwys ein strwythur ffioedd ar gyfer meysydd parcio talu ac arddangos y Cyngor yn cael ei adolygu bob rhyw bum mlynedd.

5.27 Mae targed incwm sydd angen i'r gwasanaeth ei gyfarch drwy ffioedd parcio yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant. Caiff chwyddiant cyfansawdd ei ychwanegu ar darged incwm ffioedd parcio ar gychwyn pob blwyddyn ariannol.

5.28 Cadarnhawn bod targed incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol 2024-25 yn cynnwys chwyddiant yn ogystal a'r cyfansymiau incwm ychwanegol sy'n deillio o'r cynlluniau arbed a gynhigiwyd gan y gwasanaeth.

5.29 Isod gweler grynhoad o'r targedau incwm ers 2021-22:

| | Cyllideb |
|---|---|
| | |
| 2021/22 | £2,381,880 |
| | |
| 2022/23 | £2,506,260 |
| | |
| 2023/24 | £2,690,350 |
| | |
| 2024/25 | £2,937,020 |

5.30 Roedd cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd drwy ffioedd parcio ym mlwyddyn ariannol 2023-24 oddeutu £2.1 miliwn sydd tua £590k yn llai na'r targed ar y pryd.

5.31 Petai'r strwythur ffioedd parcio a'r nifer o bobl sydd yn defnyddio'r meysydd parcio yn aros yr un fath eleni, rhagwelir byddai'r gwasanaeth yn tangyflawni dros £870,000. Drwy gymeradwyo'r cynlluniau arbed uchod, byddai modd lleihau'r cyfanswm hwn i £730,000.

5.32 Er mwyn ceisio cadw i fyny gyda'r targed incwm blynyddol, gan ystyried nad yw'r ffioedd yn cynyddu yn flynyddol, yr unig ffordd i wneud hyn yw drwy gynyddu'r defnydd. Mae'r gwarged nawr yn afrealistig o ran faint o gynnydd yn nefnydd fyddai angen er mwyn cwrdd â hyn. Mae hyn gan ystyried fe fydd rhai o'n meysydd parcio mwyaf prysur yn llawn neu agos i fod yn llawn eisoes yn ystod cyfnodau brig

5.33 Golygai'r ffaith bod strwythur ffioedd parcio'r Cyngor wedi aros yr un fath ers 2021, a'r targed incwm sydd angen ei gyfarch yn parhau i gynyddu, iddi ymddangos bod cyllidebau'r gwasanaeth yn gorwario'n sylweddol yn erbyn y targed.

**5.34** Rydym yn argymell bod Aelodau Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo a galluogi'r Gwasanaeth Parcio gynyddu holl ffioedd parcio 40% er mwyn cyfarch lefel incwm digonol sydd yn ddisgwyliedig o'r Adran**.**

**Pwyllgor Craffu Cymunedau**

5.35 Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 12fed o Fedi 2024 yn cyflwyno'r cynlluniau ac argymhelliad yr Adran i gynyddu holl ffioedd parcio 40% ar gyfer eu hystyriaeth. Trafodwyd yr holl faterion a'r effaith posib ar drigolion a chymunedau'r Sir. Penderfynodd y Pwyllgor;

1. Dylid ystyried cynyddu ffioedd parcio yn flynyddol neu bob dwy flynedd gan roi ystyriaeth i sefyllfa chwyddiant;

2. Ni ddylid addasu’r trefniadau gorfodaeth yn y meysydd parcio arhosiad byr oherwydd yr effaith ar yr economi leol.
3. Dylid ystyried cynyddu ffioedd ymhellach ym meysydd parcio mewn ardaloedd twristiaeth penodol megis Pen y Gwryd.
4. Ystyried cynyddu ffioedd safleoedd Arosfan yn flynyddol.

5.36 Roedd y drafodaeth yn ystod y cyfarfod yn hynod werthfawr a croesawyd yr adborth ac awgrymiadau. Er hyn, mae’n anorfod amlygu’r rhesymau pam na fyddai'n bosibl gweithredu ar hyn o bryd.

5.37 **Cynyddu Ffioedd Parcio yn Flynyddol neu Bob Dwy Flynedd:** Er bod cynyddu ffioedd parcio yn flynyddol neu bob dwy flynedd i adlewyrchu chwyddiant yn awgrym ymarferol, rydym yn ymwybodol o’r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng cynhyrchu’r incwm angenrheidiol a chefnogi ein trigolion a busnesau lleol. Gall cynyddu ffioedd parcio’n raddol helpu i sicrhau bod gwasanaethau’r Cyngor yn cael eu hariannu’n ddigonol heb roi baich gormodol ar y cyhoedd ar unwaith.

Er mwyn cyflawni hyn, gallwn ystyried dull fesul cam i gynyddu’r ffioedd gan ystyried chwyddiant, tra’n bod yn sensitif i’r pwysau ariannol y mae ein cymunedau’n eu hwynebu ar hyn o bryd. Byddai hyn yn rhoi cyfle i godi arian yn raddol ar gyfer gwasanaethau hanfodol heb effeithio’n negyddol ar nifer yr ymwelwyr i ganol y dref na busnesau lleol sydd yn dal i wella o heriau economaidd diweddar. Gallai dull o’r fath ganiatáu i’r Cyngor reoli ei sefyllfa ariannol yn well, gan gefnogi cynaliadwyedd hirdymor tra’n ymateb i bryderon y cyhoedd.

Mae hefyd yn hollbwysig atgoffa'r Cabinet o'r heriau ariannol parhaus sy’n wynebu’r Cyngor a’r angen dybryd i gyrraedd y targedau incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

5.38 **Cynnal y Trefniadau Gorfodi Cyfredol mewn Meysydd Parcio Tymor Byr:** Deallir yr argymhelliad i gynnal y trefniadau gorfodi cyfredol mewn meysydd parcio tymor byr er mwyn amddiffyn yr economi leol. Fodd bynnag, nid yw'r drefn bresennol, er ei bod yn hwylus i nifer o bobl, yn cynhyrchu’r incwm sydd ei angen i gyrraedd ein targedau ariannol.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y Gwasanaeth Parcio eisoes wedi trefnu gyda rhai ysgolion lleol i ganiatáu i rieni barcio mewn meysydd parcio’r Cyngor am gyfnodau byr yn ystod amseroedd gadael a chasglu plant. Mae’r fenter hon wedi cael derbyniad da ac yn helpu i reoli tagfeydd o amgylch ysgolion, tra’n sicrhau bod lleoedd parcio ar gael i ddefnydd cyffredinol drwy’r dydd. Rydym yn hapus i drafod y dewis hwn ymhellach gyda ysgolion neu rhanddeiliaid eraill a allai fod â diddordeb.

Er ein bod yn gwerthfawrogi'r angen i gefnogi'r economi leol, gallai lynu at yr amseroedd gorfodi bresennol leihau ein gallu i gyrraedd y targed incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, gan waethygu sefyllfa ariannol y Cyngor ymhellach.

5.39 **Cynyddu Ffioedd Parcio mewn Ardaloedd Twristiaeth fel Pen y Gwryd:** Mae’r argymhelliad i gynyddu ffioedd parcio mewn ardaloedd twristiaeth yn ddealladwy. Fodd bynnag, mae’n bwysig cydnabod bod trigolion Gwynedd hefyd yn defnyddio’r meysydd parcio hyn, nid twristiaid yn unig. Boed ar gyfer hamdden, gweithgareddau lleol neu

ddibenion eraill, mae llawer o drigolion yn ymweld ag ardaloedd twristiaeth fel Pen y Gwryd ac ardaloedd tebyg, sy’n golygu y byddent hwythau hefyd yn gorfod talu’r ffioedd uwch.

Gallai gosod cynnydd yn y ffioedd yn yr ardaloedd hyn roi baich ariannol ychwanegol ar ein trigolion, sydd eisoes yn wynebu pwysau costau byw cynyddol. Rhaid sicrhau cydbwysedd gofalus i sicrhau bod y ffioedd parcio’n deg ac nad ydynt yn effeithio’n anghymesur ar gymunedau lleol. Yn ogystal, gallai cynnydd sydyn yn y ffioedd leihau nifer yr ymwelwyr, gan gael effaith negyddol ar dwristiaeth—sy’n ysgogydd economaidd hanfodol i Wynedd.

Gan ystyried y costau cynyddol y mae twristiaid eisoes yn eu hwynebu o ran teithio a llety, gallai cynnydd pellach mewn ffioedd parcio wneud lleoliadau eraill yn fwy deniadol. Felly, argymhellir dull mwy mesuriedig sy’n sicrhau bod ffioedd yn briodol ac yn gystadleuol i gynnal apêl Gwynedd fel cyrchfan, tra’n sicrhau tegwch i drigolion lleol sy’n defnyddio’r cyfleusterau hyn hefyd.

5.40 **Cynyddu Ffioedd Blynyddol ar gyfer Safleoedd Arosfan:** Dylid ystyried unrhyw gynnydd mewn ffioedd ar gyfer y safleoedd Arosfan yn ofalus. Mae’r safleoedd hyn, a ddefnyddir gan drigolion a thwristiaid fel ei gilydd, yn ran o gynllun peilot sydd yn weithredol ers Ionawr 2024. Mae’n allweddol cyrraedd cydbwysedd briodol rhwng cyfrifo ffi sydd yn sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy a ffi sydd yn fforddiadwy er mwyn denu perchnogion cartrefi modur i ddefnyddio’r cyfleusterau, yn hytrach na pharcio ar ddarnau o’r briffordd gyhoeddus neu strydoedd preswyl dros nos.

5.41 **Sefyllfa Ariannol y Cyngor a'r Angen i Gyrraedd Targedau Incwm:** Mae’n hanfodol atgoffa’r Cabinet o’r heriau ariannol sylweddol sy’n wynebu’r Cyngor. Mae’r Cyngor yn wynebu diffyg cyllideb sylweddol, ac mae incwm a gynhyrchir drwy ffioedd parcio yn un o’r ffrydiau allweddol a all helpu i leihau’r diffyg hwn. Os na fyddwn yn cyrraedd y targedau incwm a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, gallai arwain at doriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, gan effeithio ar drigolion a’r economi leol.

Mae’r pwysau ariannol ar y Cyngor wedi’u dwysáu ymhellach gan gostau cynyddol i ddarparu gwasanaethau, chwyddiant, a lleihad mewn cyllid gan Lywodraeth ganolog. Felly, er bod argymhellion y Pwyllgor Craffu yn ddealladwy, teimlwn yr angen i flaenoriaethu cynhyrchu digon o incwm i sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol.

## 6. Camau nesaf

6.1 Rydym yn effro i’r ffaith bod cyfnod heriol iawn yn ein hwynebu a’i bod yn anorfod fod rhaid i’r Gwasanaeth Parcio, fel gwasanaethau eraill, gyfrannu tuag at lenwi’r bwlch ariannol sydd yn bodoli yng nghyllidebau’r Cyngor nawr.

### Cynlluniau Arbedion

6.2 Mewn ymateb i sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, mae bwriad bwrw mlaen gyda’r cynlluniau arbedion a gymeradwywyd gan y Cabinet yn 2023/24, sef 1) Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd a 2) Cynyddu pris tocyn parcio blynyddol a thocyn parcio lleol £5 y flwyddyn.

6.3 Rydym wedi cyflwyno'r cynlluniau arbedion sydd angen ystyriaeth bellach, sef 1) Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2 a 2) Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor ac yn ymofyn i Aelodau'r Cabinet alluogi'r gwasanaeth i fwrw mlaen gyda'r trefniadau a chychwyn gwireddu'r cynnydd mewn incwm posibl cyn gynted a phosib. Oherwydd yr ystyriaethau sydd yn gysylltiedig a hyn mae'n broses oddeutu 3 mis i weithredu newidiadau yn y ffioedd yn dilyn cymeradwyaeth.

**Gorwariant yn y Gyllideb**

6.4 Mae ffioedd parcio yn cynhyrchu incwm sylweddol i'r Cyngor. Er hyn, mae'n rhaid wynebu'r ffaith nad yw'r strwythur ffioedd presennol bellach yn addas ar gyfer cyfarch y targed incwm.

6.5 Yn seiliedig ar y strwythur ffioedd presennol a petai defnydd ein meysydd parcio yn aros yr un fath, rydym yn amcanu byddai cynyddu'r holl ffioedd yn cynhyrchu'r lefel incwm isod;

| | **Cyfanswm Incwm Ychwanegol Blynyddol (amcan)** |
|---|---|
| **Cynyddu'r holl ffioedd 40%** | £800,000 |

6.6 Er mwyn cyfarch targed incwm sydd wedi'i osod ar gyfer eleni, rydym yn rhagweld byddem angen cynyddu'r holl ffioedd 40%.

6.7 Mae **Atodiad B** yn arddangos y strwythur ffioedd bresennol gydag ychwanegiadau o 40%.

6.8 Mae **Atodiad C** yn arddangos y strwythur ffioedd arfaethedig gydag ychwanegiadau o 40%.

6.9 Os am gyfarch cynnydd chwyddiant disgwyliedig hyd at blwyddyn ariannol 2028-29 amcan gyfrir byddai angen codi'r holl ffioedd **40%**.

6.10 Mae'r opsiynau canlynol yn cynnig ffordd o leddfu ardrawiad mor sylweddol ar ein strwythur ffioedd parcio:

- Lleihau'r targed incwm sydd yn ddisgwyliedig gan ffioedd parcio
- Rhewi'r cyfradd chwyddiant rhwng adolygiadau fel nad ydi'r targed incwm yn cynyddu'n flynyddol
- Cynyddu'r ffioedd parcio yn flynyddol yn hytrach na bob 5 mlynedd (ar gyfartaledd)

6.11 Mae'r opsiynau hyn yn cynnig manteision yn nhermau cynorthwyo'r gwasanaeth i gyfarch targed sydd yn fwy cyraeddadwy. Er hyn, mae'n bwysig bod yn effro i'r ffaith byddai sgil effaith yr opsiynau hyn yn golygu bod angen i'r Cyngor gyfarch y diffyg ariannol mewn ffordd amgen.

6.12 Mae'r Gwasanaeth Parcio'n monitro'n rheolaidd sut mae cwsmeriaid yn talu am barcio, boed hynny trwy beiriannau talu neu ap symudol. Mae'r monitro parhaus hwn yn caniatáu i ni ddeall dewisiadau a thueddiadau cwsmeriaid, gan sicrhau y gallwn addasu ein gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol.

6.13 Yn ystod 2023-24, cafodd 55% o holl daliadau am barcio eu gwneud drwy'r Ap ffôn symudol (Paybyphone) a'r 45% sydd yn weddill yn cael eu gwneud drwy'r peiriannau talu ac arddangos.

6.14 Drwy werthuso'r defnydd o wahanol ddulliau talu, gallwn nodi cyfleoedd i symleiddio gweithrediadau a lleihau costau. Er enghraifft, os oes symudiad sylweddol tuag at daliadau digidol trwy ap, gallem ystyried lleihau nifer y peiriannau talu, gan arwain at arbedion ar gostau cynnal a chadw a gweithredu. Ar y llaw arall, os yw peiriannau talu'n parhau i fod yn boblogaidd, byddai sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn hawdd eu defnyddio'n hanfodol. Mae'n bosib er gwireddu arbedion effeithlonrwydd a effeithlonrwydd byddai modd ymadael a taliadau drwy arian parod yn gyfan gwbwl.

6.15 Tra bod cynnydd, yn enwedig o ystyried y rhain ar sail canrannau, yn medru edrych yn sylweddol mae angen ystyried rhan yn nhermau ariannol. Dylid hefyd ystyried y rhain yng nghyd-destun costau eraill sydd yn gysylltiedig â moduro gan gynnwys tanwydd, cynnal a chadw ac yswiriant. Mae'r tocynnau Blynyddol a Lleol yn adlewyrchu gwerth am arian ac yn atyniadol iawn yn enwedig i drigolion Gwynedd.

6.16 Mae'r pecyn o newidiadau sydd yn cael ei gyflwyno ac argymell yn cynnig datrysiad i'r bwlch sylweddol sydd yn bodoli eisoes yng nghyllideb y Gwasanaeth. Ar sail yr adborth o'r Pwyllgor Craffu, ac o ystyried fod 5 mlynedd ers yr adolygiad cynhwysfawr diwethaf bosib ei fod yn amserol i ymgymryd ag adolygiad llawn o'r strwythur ffioedd ein meysydd parcio o'r newydd. Bydd hyn yn medru cymryd i ystyriaeth yr ystod o ffactorau sydd wedi newid yn ystod y cyfnod ers 2019 sydd yn cynnwys patrymau teithio, y Cyngor yn datgan Argyfwng Hinsawdd, newidiadau yn y gallu a defnydd o ddulliau amgen o dalu am wasanaethau yn hytrach nag arian parod a datblygiadau technegol.

6.17 Yn y pen draw, ein nod yw cynnig y gwasanaeth gorau posibl i gwsmeriaid mewn ffordd sy'n hawdd i'w defnyddio ac yn gost-effeithiol. Trwy wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar y data a gasglwn, gallwn wneud y Gwasanaeth Parcio'n fwy effeithlon, gwella'r profiad cwsmeriaid, ac arbed arian i'r Cyngor, gan gyfrannu at effeithlonrwydd a chynaliadwyedd cyffredinol y gwasanaeth.

## 7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

7.1 Dylai'r cynnig i godi ffioedd parcio gyd-fynd â saith nod llesiant y Ddeddf:

**Cymru ffyniannus**: Drwy reoli ffioedd parcio'n ofalus, gall y cyngor gefnogi twf economaidd drwy annog pobl i ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol, gan gynhyrchu refeniw y gellir ei ail-fuddsoddi mewn gwelliannau seilwaith.

**Cymru gydnerth**: Gall ffioedd parcio uwch annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, lleihau defnydd ceir, ac o ganlyniad lleihau allyriadau carbon. Mae hyn yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd ac yn cyfrannu at gymuned fwy gwydn yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

**Cymru iachach**: Gall annog dewisiadau amgen i deithio mewn ceir, megis cerdded, beicio, neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddo ymarfer corff a lleihau llygredd aer, gan gyfrannu'n bositif at iechyd y cyhoedd.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**: Rhaid i'r polisi ystyried yr effaith ar grwpiau cymdeithasol-economaidd gwahanol. Dylid sicrhau nad yw unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn effeithio'n anghymesur ar unigolion incwm isel a bod opsiynau trafnidiaeth fforddiadwy ar gael o hyd.

Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r tocynnau parcio blynyddol a lleol sydd ar gael am brisiau rhesymol. Mae nifer o drigolion a phobl sydd angen defnyddio ein meysydd parcio'n ddyddiol yn manteisio ar y cyfle i brynu tocyn sydd yn profi'n werth am arian.

**Cymru o gymunedau cydlynus**: Gall polisïau parcio wedi'u rheoli'n briodol wella bywiogrwydd canol trefi drwy leihau tagfeydd a gwneud ardaloedd yn fwy hygyrch a dymunol i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**: Trwy gymryd camau i leihau dibyniaeth ar geir, gall y cyngor gyfrannu at ymdrechion byd-eang i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, gan adlewyrchu ymrwymiad i gynaliadwyedd byd-eang.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**: Dylai strategaethau parcio hefyd ystyried eu heffaith ar fynediad at ddigwyddiadau a lleoliadau diwylliannol, gan sicrhau bod y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu hyrwyddo a'u cadw.

7.2 Dylai'r cynnig i godi ffioedd parcio gyd-fynd â'r pump modd o weithio a nodir yn y Ddeddf:

- Rydym yn **cynnwys** trigolion a defnyddwyr gwasanaeth drwy dderbyn adborth. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau, cwynion, sylwadau a mewnbwn arall gan y cyhoedd, defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr ein meysydd parcio ar sail barhaus.

- Rydym yn **cydweithio** gyda'r rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae hyn yn cynnwys Awdurdodau Lleol Arall, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

  Ar lefel weithredol rydym yn cyd-weithio gyda 10 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru fel aelodau o PPCC (Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru) i gefnogi'r gweithrediad gorfodaeth drwy ddelio â heriau, taliadau a phrosesu'r holl rybuddion talu cosb a gyflwynir.

  Ar lefel strategol rydym yn rhoi mewnbwn i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drwy'r Cydbwyllgor Corfforaethol.

- Rydym yn edrych i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol drwy gydweithio yn agos gyda'r rhanddeiliaid allweddol eraill. Y bwriad yw optimeiddio'r defnydd o'r meysydd parcio i hwyluso mynediad a cefnogi cymunedau gwydn a economi leol byrlymus a llwyddiannus.

- Rydym yn ystyried yr **hirdymor** drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a gwaith y Cydbwyllgor Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i sut mae strategaeth parcio a strwythur ffioedd parcio yn medru dylanwadu yn gadarnhaol ar dewisiadau a ymddygiadau teithio. Mae rhaglen ar waith i leoli pwyntiau gwefru ar cyfer ceir trydan yn ein meysydd parcio. Mae modd i dalu am barcio mewn meysydd parcio drwy Ap sydd yn adlewyrchiad yn newidiadau technegol yn ogystal a'r modd mae cwsmeriaid am dalu i barcio. Mae'r modd yma o dalu yn gynyddol boblogaidd.

- Mae natur y maes gwaith yn golygu angen i **integreiddio** gyda chyrff cyhoeddus eraill sydd yn cynnwys Awdurdodau Lleol eraill, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Llywodraeth Cymru.

  Rydym yn ystyried y berthynas rhwng y ddarpariaeth parcio ar y stryd ag oddi ar y stryd fel un pecyn integredig gyda'r bwriad o gwrdd a disgwyliadau a dyheadau wahanol rhanddeiliaid pan mae rhain weithiau yn gwrthdaro.

  Dylai'r Pwyllgor Craffu sicrhau bod y penderfyniad i godi ffioedd parcio'n cael ei wneud gyda golwg holistig, gan ystyried nid yn unig y manteision ariannol uniongyrchol ond hefyd yr effeithiau hirdymor ar lesiant cenedlaethau presennol a'r dyfodol.

**8. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

8.1 Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio yn ystod y broses ymgynghori ymgysylltu â'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant.

8.2 Gweler fersiwn cyntaf o'r asesiad cydraddoldeb yn Atodiad Ch.

**9. Argymhelliad**

9.1 Bod Aelodau'r Cabinet yn rhoi sêl bendith i argymhellion yr adroddiad.

9.2 Bod Aelodau'r Cabinet yn awdurdodi Pennaeth yr Adran i fwrw mlaen a chynnal proses statudol er mwyn i'r ffioedd newydd ddod yn weithredol o 1af Ebrill 2025.

## 10. Sylwadau Swyddogion Statudol

### a. Prif Swyddog Cyllid

"Mae'r Adroddiad Cyllideb Refeniw 2024/25 – Adolygiad Diwedd Awst 2024 sy'n eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma o'r Cabinet yn amlygu'r rhagolygon ar gyfer sefyllfa ariannol y Cyngor erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Fe welir yn yr adroddiad hwnnw fod y rhagolygon ar gyfer diffyg yn yr incwm parcio wedi cynyddu i £824k.

Yn unol â'r drefn o osod cyllideb fe ychwanegir chwyddiant i'r gyllideb incwm yn flynyddol ac os nad yw'r ffioedd yn cynyddu o raddfa cyfatebol mae gagendor am fodoli a bydd yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall, fel a welir yn yr adroddiad uchod. Mae perygl felly byddai cynyddu'r targed incwm drwy gynlluniau arbed yn ogystal â chwyddiant yn creu sefyllfa anghynaladwy os nad oes gobaith i'r gwir incwm gwrdd â'r targed.

Rwyf felly'n croesawu ymdrechion yr Adran Amgylchedd i gymryd camau pendant i ddelio â'r sefyllfa

### b. Swyddog Monitro

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad A - Strwythur ffioedd arfaethedig llawn.

Atodiad B – Strwythur ffioedd bresennol gydag ychwanegiadau o 40%

Atodiad C – Strwythur ffioedd arfaethedig gydag ychwanegiadau o 40%

Atodiad Ch – Asesiad Cydraddoldeb

Atodiad A

**Atodiad A - Appendix A**

| Strwythur ffioedd presennol | |
|---|---|
| | |
| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 2 awr | £1.00 |
| Hyd at 4 Awr | £2.00 |
| Hyd at 12 Awr | £5.00 |
| Hyd at 24 Awr | £10.00 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 2 awr | £1.00 |
| Hyd at 4 Awr | £2.00 |
| Hyd at 12 Awr | £3.00 |
| Hyd at 24 Awr | £6.00 |

| Strwythur ffioedd **arfaethedig** | |
|---|---|
| | |
| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.50 |
| Hyd at 12 Awr | £5.00 |
| Hyd at 24 Awr | £10.00 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.50 |
| Hyd at 12 Awr | £3.00 |
| Hyd at 24 Awr | £6.00 |

**Atodiad B - Appendix B**

| Strwythur ffioedd **Presennol** | | Strwythur ffioedd gyda **40%** wedi ychwanegu | |
|---|---|---|---|
| **Band 1** | **Arhosiad Byr** | **Band 1** | **Arhosiad Byr** |
| Hyd at 1 Awr | £1.00 | Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 | Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 | Hyd at 3 Awr | £4.20 |
| **Band 1** | **Arhosiad Hir** | **Band 1** | **Arhosiad Hir** |
| Hyd at 4 Awr | £2.00 | Hyd at 4 Awr | £2.80 |
| Hyd at 8 Awr | £3.00 | Hyd at 8 Awr | £4.20 |
| Hyd at 12 Awr | £4.00 | Hyd at 12 Awr | £5.60 |
| Hyd at 24 Awr | £5.00 | Hyd at 24 Awr | £7.00 |
| **Band 2 - Haf** | **Arhosiad Byr** | **Band 2 - Haf** | **Arhosiad Byr** |
| Hyd at 1 Awr | £1.00 | Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 | Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 | Hyd at 3 Awr | £4.20 |
| **Band 2 - Gaeaf** | **Arhosiad Byr** | **Band 2 - Gaeaf** | **Arhosiad Byr** |
| Hyd at 1 Awr | £1.00 | Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 | Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 | Hyd at 3 Awr | £4.20 |
| **Band 2 - Haf** | **Arhosiad Hir** | **Band 2 - Haf** | **Arhosiad Hir** |
| Hyd at 2 Awr | £1.00 | Hyd at 2 Awr | £1.40 |
| Hyd at 4 Awr | £2.00 | Hyd at 4 Awr | £2.80 |
| Hyd at 12 Awr | £5.00 | Hyd at 12 Awr | £7.00 |
| Hyd at 24 Awr | £10.00 | Hyd at 24 Awr | £14.00 |
| **Band 2 - Gaeaf** | **Arhosiad Hir** | **Band 2 - Gaeaf** | **Arhosiad Hir** |
| Hyd at 2 Awr | £1.00 | Hyd at 2 Awr | £1.40 |
| Hyd at 4 Awr | £2.00 | Hyd at 4 Awr | £2.80 |
| Hyd at 12 Awr | £3.00 | Hyd at 12 Awr | £4.20 |
| Hyd at 24 Awr | £6.00 | Hyd at 24 Awr | £8.40 |
| **Band 3** | **Arhosiad Hir** | **Band 3** | **Arhosiad Hir** |
| Hyd at 6 Awr | £3.00 | Hyd at 6 Awr | £4.20 |
| Hyd at 12 Awr | £4.00 | Hyd at 12 Awr | £5.60 |
| Hyd at 24 Awr | £5.00 | Hyd at 24 Awr | £7.00 |

**Atodiad C - Appendix C**

| Strwythur ffioedd **arfaethedig** | | Strwythur ffioedd arfaethedig gyda **40%** wedi ychwanegu | |
|---|---|---|---|
| Band 1 | Arhosiad Byr | Band 1 | Arhosiad Byr |
| Hyd at 1 Awr | £1.00 | Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 | Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 | Hyd at 3 Awr | £4.20 |
| Band 1 | Arhosiad Hir | Band 1 | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.00 | Hyd at 4 Awr | £2.80 |
| Hyd at 8 Awr | £3.00 | Hyd at 8 Awr | £4.20 |
| Hyd at 12 Awr | £4.00 | Hyd at 12 Awr | £5.60 |
| Hyd at 24 Awr | £5.00 | Hyd at 24 Awr | £7.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Band 2 - Haf | Arhosiad Byr | Band 2 - Haf | Arhosiad Byr |
| Hyd at 1 Awr | £1.00 | Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 | Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 | Hyd at 3 Awr | £4.20 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Byr | Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Byr |
| Hyd at 1 Awr | £1.00 | Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 | Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 | Hyd at 3 Awr | £4.20 |
| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir | Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.50 | Hyd at 4 Awr | £3.50 |
| Hyd at 12 Awr | £5.00 | Hyd at 12 Awr | £7.00 |
| Hyd at 24 Awr | £10.00 | Hyd at 24 Awr | £14.00 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir | Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.50 | Hyd at 4 Awr | £3.50 |
| Hyd at 12 Awr | £3.00 | Hyd at 12 Awr | £4.20 |
| Hyd at 24 Awr | £6.00 | Hyd at 24 Awr | £8.40 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Band 3 | Arhosiad Hir | Band 3 | Arhosiad Hir |
| Hyd at 6 Awr | £3.00 | Hyd at 6 Awr | £4.20 |
| Hyd at 12 Awr | £4.00 | Hyd at 12 Awr | £5.60 |
| Hyd at 24 Awr | £5.00 | Hyd at 24 Awr | £7.00 |

Atodiad Ch

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Adroddiad Ffioedd a Chynlluniau Parcio 2024 |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Nod y newidiadau arfaethedig yw:

1. Gweithredu cynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo yn 2023/24.
   - 1.1 Cynyddu ffioedd parcio ym Mhen y Gwryd
   - 1.2 Cynyddu pris tocyn parcio blynyddol o £140 i £145 a thocyn parcio lleol o £70 i £75 y flwyddyn.
2. Gweithredu cynlluniau arbedion ar gyfer 2024/24 sydd angen ystyriaeth pellach.
   - 2.1 Addasu strwythur ffioedd parcio arhosiad hir Band 2.
   - 2.2 Ymestyn oriau gorfodi mewn meysydd parcio arhosiad byr.
3. Cynyddu'r holl ffioedd parcio 40% i gwrdd â thargedau'r gyllideb.

Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol i fynd i'r afael â diffyg sylweddol yn y gyllideb a wynebir gan Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol – Adran Amgylchedd<br>Ceri Thomas – Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

| |
|---|
| Mae materion cydraddoldeb wedi cael ystyriaeth wrth i'r cynigion gael eu datblygu. Mae rhain wedi eu cynnwys yn yr asesiad yma a baratowyd ym mis Medi 2024. |

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

| |
|---|
| Gwasanaeth Parcio<br><br>Adran Gyllid<br><br>Pwyllgor Craffu Cymunedau |

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

| |
|---|
| Mae'r broses ymgynghori a dodi rhybudd yn y wasg yn rhan o'r drefn a gall aelodau'r cyhoedd rhoi eu sylw neu wrthwynebiadau neu roddi barn positif drwy'r broses statudol yma.<br><br>Mae'n ofyn hanfodol i'r Cyngor hysbysebu'r newidiadau arfaethedig yn y papurau newydd lleol yn ogystal ag arddangos y wybodaeth (cynnwys y ffioedd newydd) mewn safle amlwg yn y meysydd parcio a cheir eu heffeithio.<br><br>Ni fydd unrhyw newid i gynllun parcio ar gyfer pobl anabl. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Amlygodd adborth cychwynnol gan Bwyllgor Craffu'r Cyngor bryderon byddai'r ffioedd newydd yn llawer rhu ddrud i drigolion lleol yn enwedig rhai sydd ar gyflogau bychain. |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Adroddiadau ariannol yn nodi'r diffygion yn y gyllideb.<br><br>Adolygiadau strwythur ffioedd parcio blaenorol.<br><br>Cymariaethau ffioedd gydag Awdurdodau Lleol cyfagos.<br><br>Nid yw'r ffioedd talu ac arddangos wedi newid ers 2021 hyd yn oed i adlewyrchu cyfraddau chwyddiant.<br><br>Mae'n hanfodol ein bod yn adolygu'r ffioedd i sicrhau bod digon o incwm i gwrdd â'r bwlch ariannol yng nghyllideb y Cyngor. |

**2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Niwtral | Mae newid i'r strwythur ffioedd yn debygol o effeithio trigolion lleol ac ymwelwyr cystal a'i gilydd. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Byddwn yn parhau i sicrhau fod arwyddion ac unrhyw feddalwedd newydd yn ddwyieithog. |
| **Anabledd** | Positif | Ni gynhigir unrhyw newidiadau i'r cynllun bathodynnau glas felly ddim yn rhagweld effaith benodol i bobl anabl. |
| **Rhyw** | Dim | Dim yn rhagweld effaith benodol o ran rhyw. |
| **Oedran** | Positif | Mae'n ymddangos bod mwy o bobl oedrannus yn tueddu i fod yn anabl felly bydd canran uwch o bobl hyn ddim yn talu am barcio. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Dim yn rhagweld effaith benodol o ran cyfeiriadedd rhyw. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Dim yn rhagweld effaith benodol o ran crefydd neu gred (neu diffyg cred). |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Dim yn rhagweld effaith benodol o ran ailbennu rhywedd. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Dim yn rhagweld effaith benodol o ran beichiogrwydd a mamolaeth. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Dim yn rhagweld effaith benodol o ran priodas a phartneriaeth sifil. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Mae'n wir dweud fod teuluoedd sydd a pherson anabl yn y teulu yn tueddu i fod yn dlotach.<br><br>Byddwn fel Cyngor yn parhau i beidio a chodi ffi parcio ar bobl anabl er mwyn iddynt gael mynediad at siopa a gwasanaethau eraill fel yr arfer. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Gall cynnydd yn y strwythur parcio wneud pethau'n fwy anodd i'r sawl sydd a'r gyflogau bychain.<br><br>Rhaid cadw mewn cof hefyd bod y Cyngor yn cynnig Tocyn Parcio Blynyddol. Mae'r tocyn yn galluogi deilwyr i barcio mewn unrhyw faes parcio arhosiad hir ledled y Sir heb gyfyngiad amser. Yn unol â'r adolygiad hwn, mae argymhelliad i gynyddu cost am y tocyn hwn o £140 i £145 y flwyddyn (er mwyn cyfarch chwyddiant). Byddai deilwyr y tocyn sydd yn defnyddio maes parcio yn ddyddiol yn talu £12.08 y mis, sydd yn gyfwerth a 40c y dydd. Rydym o'r farn fod y tocyn yn parhau i gynnig gwerth am arian.<br><br>Gall hwn fod yn ddatrysiad addas i bobl sydd a'r gyflogau bychain.<br><br>Rydym hefyd yn cynnig tocyn parcio i drigolion ei brynu am £75 y flwyddyn. Rydym yn gwerthfawrogi fod prinder llecynnau parcio tu allan i gartrefi yn broblem oherwydd cynnydd yn y nifer o gerbydau. Mae'r tocyn hwn yn cynnig i drigolion barcio yn y maes parcio Arhosiad Hir agosaf i'w cartref. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Wrth gadw'r cynllun bathodynnau glas yr un fath a pharcio yn parhau i fod yn rhad ag am ddim i bobl anabl, maent yn parhau i fedru mynd allan a chymdeithasu gyda'r gymuned. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Ni gynhigir unrhyw newidiadau i'r cynllun bathodynnau glas. Mae dalwyr bathodynnau glas yn parhau i gael parcio am ddim yn ein meysydd parcio a chaniateir iddynt barcio ar linellau melyn dwbl am gyfnod hyd at 3 awr.

Wrth gadw'r cynllun bathodynnau glas yr un fath, maent yn parhau i fedru mynd allan a chymdeithasu gyda'r gymuned heb orfod poeni am gostau ychwanegol.

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Na.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Amherthnasol. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Byddwn yn parhau i fonitro defnydd ein meysydd parcio. |